



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwahardd gwerthu, meddu gyda'r bwriad o werthu, cynnig, arddangos neu hysbysebu ar gyfer gwerthu, a mewnfurio i Gymru o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig neu gludo i Gymru o unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, unrhyw fwyd sydd wedi'i wneud o Gafa-cafa, neu sy'n cynnwys Cafa-cafa. Maent yn cymryd lle deddfwriaeth debyg a wnaed yn 2002 a ddirymwyd yn dilyn amryfusedd trefniadol.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 2, ceir diffiniad o "the Act" yn y testun Saesneg, ond ni cheir diffiniad cyfatebol o "y Ddeddf" yn y testun Cymraeg [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae testun Saesneg rhan olaf rheoliad 3(2) yn cyfeirio at fwyd "to be exported", ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "mewnfurio". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Ym mharagraffau (1)(f), (ff) a (g) o'r testun Cymraeg, mae'r croesgyfeiriadau at baragraffau blaenorol yn dilyn y rhai yn y testun Saesneg heb ystyried y llythrennau gwahanol a ddefnyddir yn y testun

Cymraeg. Dylai'r cyfeiriadau at (g), (g) a (h) fod yn gyfeiriadau at (e), (e) ac (f) yn y drefn hon. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw pob un o'r rhain sy'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Defnyddir yr acronymau EEA/AEE yn y Nodyn Esboniadol heb esboniad, ac eto yn y testun heb esboniad tan reoliad 3(2)(b). I helpu darllenwyr, dylid esbonio acronymau y tro cyntaf y cânt eu defnyddio. Yn yr un modd, defnyddir "aelod-wladwriaeth" heb esboniad.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

4 Gorffennaf 2006